

Trefi SMART Powys

Manwerthu'r Rhyngrwyd Pethau



Beth yw'r Rhyngrwyd Pethau (IoT)?

Gall dyfeisiadau trydanol IoT ddweud wrthy ch beth sy'n digwydd yn eich busnes. O nifer yr ymwelwyr i fonitro ansawdd aer dan do a rheweiddio, mae'r dyfeisiadau hyn yn darparu gwybodaeth graff yn brydlon fel y gallwch wneud penderfyniadau i wella eich busnes a chynyddu refeniw.

Sut mae'n Gweithio?

Mae dyfeisiadau IoT yn mesur gwahanol agweddau yn ymwneud â'ch busnes ac yn trosglwyddo i borth lleol gan ddefnyddio'r system LoraWAN. Mae'r porth yn anfon y mesuriad i ddangosfwrdd ar y Rhyngrwyd lle darganfyddir mewnwelediadau. Yna cyflwynir y wybodaeth hon i chi drwy'r dangosfwrdd ar eich ffôn neu gyfrifiadur.

Engbreiffiau Cadw cyfrif ar nifer yr ymwelwyr	Bydd rhifydd nifer yr ymwelwyr yn cadw cyfrif ar nifer y cwsmeriaid sy'n dod i mewn i'ch sefydliad manwerthu. Ar y cyd â chofnodion til, gallwch bennu ymddygiad cwsmeriaid a nodi gwelliannau i gynyddu refeniw fesul cwsmer.
Cydymffurfriad Rheoleiddio	Os yw eich busnes yn ymdrin â bwyd, rhaid monitro eich oergelloedd a'ch rhewgelloedd a chadw cofnodion. Gan ddefnyddio synwryddion tymheredd bach y tu mewn i bob uned, mae cofnodion fesul awr yn cael eu cadw'n awtomatig i ddangosfwrdd ar y Rhyngrwyd. Mae hyn yn arbed amser staff ac yn dileu'r angen i gadw cofnodion papur.
Ansawdd Aer	Gall ansawdd aer gwael fel lefelau uchel o CO2 effeithio'n negyddol ar hwyliau pobl a'u penderfyniadau prynu. Mae monitro yn eich rhybuddio pan fydd ansawdd aer yn gostwng, a allai olygu dim ond agor ffenestr neu ddrws.
Diogelwch Sylfaenol	Gall synwryddion drws, ffenestr a symudiad rhad ddarparu system ddiogelwch sylfaenol, gost-effeithiol, yn enwedig ar gyfer unedau manwerthu bach. Gellir hysbysu'r perchennog pan fydd ffenestr wedi'i gadael ar agor neu os canfyddir symudiad y tu hwnt i oriau.
Monitro Hapusrwydd	Mae botymau syml wrth allanfeydd manwerthu yn galluogi cwsmeriaid i bleidleisio ar wasanaeth da neu fel arall. Mae hyn yn eich helpu i wella profiad y cwsmer ac yn darparu cyfleoedd i uwch-werthu, yn seiliedig ar ymddygiad cwsmeriaid.



Sut i Elwa ar IoT

Mae yna lawer o wahanol fathau o synwryddion IoT a all helpu eich busnes.

Y dull gorau yw ymgysylltu â busnesau eraill a'ch cyngor tref i drafod yr hyn mae pobl eraill wedi ei wneud. Yna, gallwch chi ymgysylltu ag ymarferydd IoT i helpu gyda'r heriau technegol a'r datrysiadau.

Sut i'w gael

Bydd dewis synwryddion a chreu'r dangosfwrdd yn gofyn am ychydig o gymorth arbenigol. Efallai bod cyllid ar gael drwy'r cyngor lleol neu sefydliadau cymorth.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â Hwb Menter Ffocws y Drenewydd drwy eu gwefan.

focusenterprisehubs.wales neu ffôn **01686 806349**